Briff Ymchwil

# Papur briffio ar y farchnad lafur

Awdur: **Gareth Thomas**

Dyddiad: **Medi 2016**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Gareth Thomas**
Dyddiad: **Medi 2016**
Rhif Papur: **16-052**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6307**
: **GarethDavid.Thomas@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Papur briffio ar y farchnad lafur

Mae'r papur briffio misol hwn yn rhoi trosolwg ystadegol o'r farchnad lafur.

Caiff gwybodaeth am etholaethau'r Cynulliad, Cymru a chenhedloedd y DU ei chynnwys.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Papur Briffio ar y Farchnad Lafur

Caiff ystadegau ar y farchnad lafur eu cyhoeddi'n fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Caiff y papur hwn ei ryddhau'n fuan wedi i ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gael eu cyhoeddi. Nod y papur yw darparu crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y farchnad lafur yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

**Mae'r papur hwn yn cynnwys gwybodaeth gymharol am ddiweithdra, cyflogaeth ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig. Hefyd, darperir y prif ffigurau ar gyfer etholaethau Cymru.**

Gall y Gwasanaeth Ymchwil ddarparu dadansoddiadau manylach o ddiweithdra a thueddiadau hirdymor y farchnad lafur ar gais i **Aelodau'r Cynulliad a'u staff**. Os hoffech inni wneud hyn, cysylltwch â Gareth Thomas drwy ffonio 0300 200 6307 neu drwy anfon e-bost at Garethdavid.Thomas@cynulliad.cymru.

Medi 2016

# Y wybodaeth ddiweddaraf am Farchnad Lafur Cymru

O fis Mai tan fis Gorffennaf 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil


## PRIF YSTADEGAU CYMRU

| Mewn gwaith | Di-waith | Anweithgarwch Economaidd | Nifer sy'n hawlio budd-daliadau |
|---|---|---|---|
| *16-64* | *16+* | *16-64* | *18+* |
| **73.2%** | **4.1%** | **23.6%** | **2.9%** |
| *16+* | *16+* | *16-64* | *18+* |
| **1,457,000** | **63,000** | **449,000** | **43,500** |
| ▲ **18,000** | ▼ **-10,000** | ▼ **-14,000** | ▲ **300** |
| O'r chwarter blaenorol | O'r chwarter blaenorol | O'r chwarter blaenorol | O fis Gorffennaf 2016 |

## DIWEITHDRA ILO YNG NGHYMRU

### Yn ôl etholaeth

Am 12 mis tan fis Mawrth 2016




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016
Arolwg Ordnans 100047295

### Yn ôl Grŵp Oedran

Am 12 mis tan fis Mawrth 2016

| Grŵp Oedran | |
|---|---|
| 16-24 | 15.6% |
| 25-49 | 4.2% |
| 50-64 | 3.0% |

### Yn ôl rhyw

**4.7%** 38,000 Dynion di-waith

**3.5%** 25,000 Merched di-waith

## CYFRADD DIWEITHDRA ILO - GWLEDYDD Y DU

| Cymru | Yr Alban | Y DU | Lloegr | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| 4.1% | 4.7% | 4.9% | 4.9% | 5.6% |

## CYFLOGAETH OEDRAN GWEITHIO - GWLEDYDD Y DU

**Canran y bobl 16-64 mewn gwaith**

| Gogledd Iwerddon | Cymru | Yr Alban | Y DU | Lloegr |
|---|---|---|---|---|
| 69.4% | 73.2% | 74.1% | 74.5% | 74.8% |

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau rhanbarthol y farchnad lafur*

**Diffiniadau o'r termau allweddol sy'n gysylltiedig â bod â gwaith a heb waith**

Pan fydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi ystadegau ar y farchnad lafur, caiff pobl eu dosbarthu'n un o dri grŵp. **Y grwpiau hynny yw pobl â gwaith, pobl ddi-waith neu bobl economaidd anweithgar.**

- **Pobl â gwaith** yw'r rhai 16 oed a throsodd a oedd yn gwneud gwaith am dâl (boed yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig), y rhai a oedd â swydd ond a oedd wedi cefnu arni dros dro, y rhai ar raglenni hyfforddiant a chyflogaeth a gynorthwyir gan y llywodraeth, a'r rhai sy'n gwneud gwaith di-dâl gyda'r teulu;
- **Pobl sy'n cael eu dosbarthu'n ILO ddi-waith** yw pobl 16 oed a throsodd sydd heb swydd, sydd wedi bod wrthi'n chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos diwethaf, ac sydd ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf, neu sy'n ddi-waith ac yn aros i ddechrau swydd newydd yn ystod y pythefnos nesaf; a
- **Pobl sy'n cael eu dosbarthu'n economaidd anweithgar yw** pobl 16 oed a throsodd sydd heb swydd ac sydd heb chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos diwethaf ac/neu sydd heb fod ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf. Y prif grwpiau economaidd anweithgar yw myfyrwyr, pobl sy'n gofalu am y teulu a'r cartref, pobl anabl neu bobl sy'n sâl dros dro neu am dymor hir, a phobl sydd wedi ymddeol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio dau brif ddull i fesur diweithdra. Yn ogystal â'r mesur ILO uchod, **mae modd mesur nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a Chredyd Cynhwysol**. Mae'n is na diffiniad yr ILO, oherwydd nid oes gan rai pobl sy'n ddi-waith yr hawl i gael budd-dal, neu maent yn dewis peidio â gwneud cais amdano. **Dyma'r ffordd fwyaf cyfredol o fesur diweithdra.**

Er mwyn ystyried y gwahaniaethau rhwng nifer y bobl mewn grwpiau oedran ac ardaloedd daearyddol gwahanol, **caiff y ffigurau yn y papur hwn eu mynegi'n bennaf fel cyfraddau** yn hytrach na nifer y bobl.

## Data sy'n cael eu haddasu'n dymhorol a data nad ydynt yn cael eu haddasu'n dymhorol

**Caiff prif ddata ILO ar ddiweithdra a'r rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra ar gyfer Cymru a gwledydd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig eu haddasu'n dymhorol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.** Golyga hyn fod yr ystadegau'n cael eu haddasu er mwyn hepgor ffactorau tymhorol fel gwyliau a phatrymau recriwtio'r farchnad lafur. Er enghraifft, yn ystod yr haf, mae nifer fawr o bobl yn gadael addysg amser llawn ac yn ymuno â'r farchnad lafur. Er mwyn ei gwneud yn haws i adnabod tueddiadau'r farchnad lafur, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn addasu'r data hyn yn dymhorol. **Ni chaiff data eraill am ddiweithdra, er enghraifft data yn ôl grŵp oedran ac Etholaethau Seneddol, eu haddasu'n dymhorol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.**

# 1. Diweithdra yng Nghymru

Mae'r adran hon yn rhoi penawdau'r wybodaeth am gyfraddau diweithdra ILO a nifer yr hawlwyr yn y DU. Mae hefyd yn edrych ar ddiweithdra yn ôl oedran. Ymhlith y pwyntiau allweddol o'r rhan hon o'r papur mae'r canlynol:

– Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai'r gyfradd ddiweithdra ILO yng Nghymru **oedd 4.1% rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2016**, y gyfradd isaf o blith gwledydd y DU a'r isaf ers dechrau cyhoeddi'r ffigurau. (ffigur 1.1)


– Bu gostyngiad yng **nghanran yr hawlwyr** ledled Cymru a gwledydd eraill y DU yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Yng Ngogledd Iwerddon yn unig y cafwyd cyfradd hawlwyr uwch na Chymru am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn, a'r ffigur oedd 2.9% ym mis Awst 2016. (ffigur 1.2);

– Mae **cyfraddau diweithdra ieuenctid** ledled Cymru yn uwch nag ar gyfer grwpiau oedran eraill, ac maent wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf i 15.6% rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016. (ffigur 1.3);

– Gan edrych ar draws yr etholaethau, **Blaenau Gwent** oedd â'r gyfradd ddiweithdra ILO uchaf, sef 9.7%, ac **Aberconwy** oedd â'r gyfradd isaf, sef 2.7%, rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.


– O ran yr ystadegau 'answyddogol' am ganran yr hawlwyr, a gyfrifwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil, **Blaenau Gwent** oedd â'r gyfradd uchaf ym mis Awst 2016, sef 5.5%, a **Brycheiniog a Sir Faesyfed** oedd â'r gyfradd isaf, sef 1.1%.

**Ffigur 1.1: Y gyfradd ddiweithdra ILO yng Nghymru a gwledydd eraill y DU (wedi'i haddasu'n dymhorol)**





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, - **Ystadegau Rhanbarthol y Farchnad Lafur – Medi 2016 Prif ddangosyddion ar gyfer pob rhanbarth** ac **Ystadegau'r Farchnad Lafur - Medi 2016 Crynodeb o Ystadegau'r Farchnad Lafur**

**Ffigur 1.2: Cyfradd yr hawlwyr yng Nghymru a gwledydd eraill y DU (wedi'i haddasu'n dymhorol)**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur gan NOMIS

**Ffigur 1.3: Y gyfradd ddiweithdra ILO yng Nghymru yn ôl oedran (heb ei haddasu'n dymhorol)**





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur gan NOMIS

# 2. Cyflogaeth a swyddi

Mae'r rhan hon o'r papur yn edrych ar y cyfraddau cyflogaeth ledled y DU ar gyfer pobl o oedran gweithio (16-64 oed). Mae hefyd yn edrych ar y newidiadau mewn cyflogaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru. Mae prif gasgliadau'r adran hon yn cynnwys:


- Mae'r **gyfradd gyflogaeth oedran gweithio** yng Nghymru wedi cynyddu dros y pum mlynedd ddiwethaf, a'r gyfradd gyfredol yw 73.2% rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2016. (ffigur 2.1);
- **Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae'r gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl o oedran gweithio yng Nghymru wedi bod yn uwch na Gogledd Iwerddon, ond yn is na'r gwledydd eraill y DU**.
- Dros y pum mlynedd ddiwethaf, hyd at ail chwarter 2016, mae **cyflogaeth yn y sector preifat** yng Nghymru wedi cynyddu 11.2%, tra bod **cyflogaeth yn y sector cyhoeddus** wedi gostwng 8% (ffigur 2.2); ac
- O edrych ar y data fesul etholaeth, roedd 80.1% o bobl 16-64 oed yn **Sir Drefaldwyn** mewn gwaith rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, sef y gyfradd uchaf o blith etholaethau Cymru.  Yn etholaeth **Aberafan**, roedd 63.5% o bobl 16-64 oed mewn gwaith, sef y gyfradd isaf o blith etholaethau Cymru.

**Ffigur 2.1: Y gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl o oedran gweithio yng Nghymru a gwledydd eraill y DU (wedi'i haddasu'n dymhorol)**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Rhanbarthol y Farchnad Lafur - Medi 2016 Prif ddangosyddion ar gyfer pob rhanbarth ac Ystadegau'r Farchnad Lafur - Medi 2016 Crynodeb o Ystadegau'r Farchnad Lafur

**Ffigur 2.2: Canran y newid mewn cyflogaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat dros y pum mlynedd ddiwethaf (heb ei haddasu'n dymhorol)**





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyflogaeth y Sector Cyhoeddus, Chwarter 2 2016

# 3. Anweithgarwch economaidd

Mae'r rhan hon o'r papur yn edrych ar bobl y tu allan i'r farchnad lafur, y rhai sy'n cael eu dosbarthu'n economaidd anweithgar. Mae hyn yn cynnwys pobl rhwng 16 a 64 oed sydd heb waith, sydd heb chwilio am waith yn y pedair wythnos diwethaf, ac/neu sydd heb fod ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf. Mae'r graffiau isod yn dangos y gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer pobl o oedran gweithio ledled y DU, ac mae'n edrych ar y rhesymau pam mae pobl yng Nghymru yn economaidd anweithgar. Ymhlith y pwyntiau allweddol o'r rhan hon o'r papur mae'r canlynol:


- **Mae Cymru wedi bod â chyfradd anweithgarwch economaidd uwch na chyfartaledd y DU ymhlith pobl o oedran gweithio trwy gydol y pum mlynedd ddiwethaf.** Mae hyn wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf, a'r ffigur oedd 23.6% rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2016 (ffigur 3.1);
- Y prif resymau a roddwyd gan bobl economaidd anweithgar yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016 oedd salwch dros dro a salwch tymor hir (31.5%), bod yn fyfyriwr (24.0%) a gofalu am y teulu/cartref (20.2%) (ffigur 3.2) ; ac
- Ar lefel etholaeth, yn **Sir Drefaldwyn** y cafwyd y gyfradd anweithgarwch economaidd isaf ymhlith pobl o oedran gweithio rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, sef 16.9%, ac yn etholaeth **Canol Caerdydd** y cafwyd y gyfradd uchaf, sef 31.9%. Y nifer fawr o fyfyrwyr prifysgol sy'n byw yn etholaeth Canol Caerdydd sy'n rhannol gyfrifol am hyn.

## Ffigur 3.1: Y gyfradd anweithgarwch economaidd ymhlith pobl o oedran gweithio yng Nghymru a gwledydd eraill y DU (wedi'i haddasu'n dymhorol)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Rhanbarthol y Farchnad Lafur - Medi 2016 Prif ddangosyddion ar gyfer pob rhanbarth ac Ystadegau'r Farchnad Lafur - Medi 2016 Crynodeb o Ystadegau'r Farchnad Lafur

## Ffigur 3.2: Y rhesymau dros anweithgarwch economaidd ymhlith pobl o oedran gweithio yng Nghymru, mis Ebrill 2015 - mis Mawrth 2016 (fel %)




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Rhanbarthol y Farchnad Lafur - Gorffennaf 2016 Prif ddangosyddion Cymru

# 4. Beth sy'n digwydd yn eich etholaeth?

Mae Tabl 4.1 yn dangos ystadegau diweddaraf y farchnad lafur ar gyfer etholaethau Cymru. Mae'r etholaethau a gyflawnodd orau ar gyfer pob newidyn yn aur, ac mae'r etholaethau a gyflawnodd waethaf yn llwyd.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y farchnad lafur yn eich etholaeth, gan gynnwys cymariaethau dros gyfnod o amser, ar gael ar **dudalennau cymorth etholaethol** y Gwasanaeth Ymchwil.

**Tabl 4.1: Penawdau ystadegau'r farchnad lafur fesul etholaeth, Ebrill 2015 – Mawrth 2016**

| Etholaeth | Ffigurau diweithdra'r ILO 16+ | Cyfradd answyddogol y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra (Awst 2016) | Y gyfradd gyflogaeth 16-64 oed | Y gyfradd anweithgarwch economaidd 16-64 oed |
|---|---|---|---|---|
| Aberafan | 8.0 | 3.8 | 63.5 | 30.8 |
| Aberconwy | 2.7 | 2.6 | 70.9 | 27.0 |
| Alun a Glannau Dyfrdwy | 3.4 | 1.9 | 76.5 | 20.7 |
| Arfon | 7.4 | 3.4 | 66.5 | 27.8 |
| Blaenau Gwent | 9.7 | 5.5 | 64.3 | 28.6 |
| Bro Morgannwg | 3.4 | 2.6 | 74.7 | 22.5 |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | 3.6 | 1.1 | 74.7 | 22.4 |
| Caerffili | 5.6 | 3.9 | 73.0 | 22.6 |
| Canol Caerdydd | 3.9 | 3.5 | 65.4 | 31.9 |
| Castell-nedd | 6.1 | 3.4 | 69.5 | 25.9 |
| Ceredigion | 4.6 | 1.5 | 65.6 | 31.0 |
| Cwm Cynon | 6.8 | 4.2 | 67.9 | 26.9 |
| De Caerdydd a Phenarth | 6.3 | 3.7 | 66.5 | 28.9 |
| De Clwyd | 3.7 | 2.2 | 74.1 | 23.0 |
| Delyn | 2.8 | 2.2 | 71.2 | 26.6 |
| Dwyfor Meirionnydd | 4.6 | 1.4 | 73.1 | 23.1 |
| Dwyrain Abertawe | 7.7 | 4.1 | 69.3 | 24.7 |
| Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | 5.8 | 2.5 | 69.6 | 25.9 |
| Dwyrain Casnewydd | 6.0 | 3.9 | 69.0 | 26.5 |
| Dyffryn Clwyd | 4.2 | 3.2 | 71.0 | 25.7 |
| Gogledd Caerdydd | 8.6 | 1.8 | 75.4 | 17.5 |
| Gorllewin Abertawe | 5.7 | 4.0 | 69.0 | 26.7 |
| Gorllewin Caerdydd | 5.5 | 3.6 | 72.4 | 23.2 |
| Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | 4.4 | 2.6 | 72.4 | 23.9 |
| Gorllewin Casnewydd | 4.6 | 4.0 | 70.5 | 26.0 |
| Gorllewin Clwyd | 5.9 | 2.6 | 73.8 | 21.3 |
| Gŵyr | 5.1 | 1.8 | 72.9 | 23.1 |
| Islwyn | 7.7 | 3.7 | 65.7 | 28.7 |
| Llanelli | 5.2 | 3.1 | 70.5 | 25.5 |
| Merthyr Tudful a Rhymni | 6.7 | 4.5 | 66.0 | 29.2 |
| Mynwy | 3.3 | 1.7 | 78.0 | 19.1 |
| Ogwr | 7.2 | 3.3 | 71.0 | 23.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 5.3 | 2.7 | 74.9 | 20.8 |
| Pontypridd | 5.2 | 2.3 | 72.3 | 23.6 |
| Preseli Sir Benfro | 4.1 | 2.7 | 72.8 | 23.9 |
| Rhondda | 8.7 | 4.6 | 67.6 | 25.8 |
| Sir Drefaldwyn | 3.4 | 1.4 | 80.1 | 16.9 |
| Torfaen | 5.8 | 3.4 | 71.8 | 23.7 |
| Wrecsam | 3.6 | 2.3 | 77.6 | 19.4 |
| Ynys Môn | 4.5 | 3.8 | 74.9 | 21.5 |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Ystadegau Rhanbarthol y Llafurlu – Medi 2016: Tabl L102 Dangosyddion Lleol ar gyfer Etholaethau Seneddol ac Ystadegau Rhanbarthol y Farchnad Lafur – Medi 2016: Tabl CC02 Nifer yr Hawlwyr fesul Etholaethau Seneddol**